OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 2438 (Cy.202)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud - -* | *14 Awst 2007* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *17 Awst 2007* |
| *Yn dod i rym - -* | *7 Medi 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 43(4B)(b), 44(9) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2007.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Medi 2007 ond bydd y diwygiad a osodir yn erthygl 2 yn effeithiol o 1 Ebrill 2007 ymlaen.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2006.**

**2.** Yn y Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2006(**2**), yn Erthygl 2 (Dehongli), yn y diffiniad o "hereditament a eithrir" ("excepted hereditament"), hepgorer paragraff (dd).

(**1**) 1988 p.41. Cafodd y pwerau hyn eu datganoli, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) Gorchymyn 1999 (O.S. 1999/672), gweler y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2006/3345 (Cy.306).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Brian Gibbons*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

14 Awst 2007

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Medi 2007 ond bydd y diwygiad yn erthygl 2 yn effeithiol o 1 Ebrill 2007 ymlaen. Mae'r Gorchymyn yn gymwys i Gymru.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Arderethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2006 ("Gorchymyn 2006") yn diffinio hereditamentau a eithrir rhag y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach a sefydlir gan y Gorchymyn hwnnw.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r diffiniad o hereditamentau a eithrir yn y Gorchymyn 2006 drwy ddileu'r cyfeiriad at eiddo hunan-ddarpar penodol.